

# Datganiad ar gyfer manteision cymunedol gan ddatblygwyr a gweithredwyr ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru

## Rhagarweiniad

Cefnogir y Datganiad hwn, a arwyddwyd gan ddatblygwyr ynni gwynt ar y tir yng Nghymru, gan RenewableUK Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae canllaw cynllunio ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru yn nodi ardaloedd strategol ar gyfer datblygiadau graddfa fawr. Mae datblygwyr ffermydd gwynt yn cydnabod y cyfleoedd mae hwn yn ei gynnig ac maent yn cadw at yr egwyddor sy'n ystyried bod manteision cymunedol yn ffordd briodol i wella'n uniongyrchol fudd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y cymunedau sy'n rhoi cartref i brosiectau ynni gwynt. Mae'r Datganiad hwn yn addewid i sicrhau bod y "cymunedau wedi eu hymgysylltu'n llawn a'u bod yn derbyn manteision cadarnhaol hirdymor"<sup>1</sup>

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn cyhoeddi y bydd ein cwmnïau yn cadw at y Datganiad hwn ac yn cyfeirio ato fel canllaw da wrth ymgysylltu â chymunedau yn ardal prosiectau ynni gwynt a gynigir.

## Y cyfle

Gall manteision cymunedol a ddarperir gan weithredwyr ffermydd gwynt gael eu darparu mewn ystod eang o ddulliau, yn cynnwys (ond ddim wedi ei gyfyngu i):

- Cefnogaeth ariannol uniongyrchol (megis Cronfeydd Budd Cymunedol)
- Cyfleoedd megis perchnogaeth gymunedol, rhannu elw a pherchnogaeth cyfranddaliadau
- Mesurau neu fentrau i gefnogi lleihau costau ynni
- Darpariaeth seilwaith lleol newydd neu well
- Noddi sefydliadau a digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol
- Cynigion mewn ffyrdd eraill, megis rhaglenni rheoli cynefin
- Galluogi cyfleoedd addysg neu hyfforddiant

Maent yn ffyrdd i ddod â manteision diriaethol i'r cymunedau hynny sy'n rhoi cartref i brosiectau gwynt, yn ychwanegol at y manteision economaidd, sicrwydd ynni ac amgylcheddol sy'n deillio o'r datblygiadau hyn.

Mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn rhoi ymrwymiad ar gyfer cyflenwi a chael y manteision economaidd a chymunedol gorau posibl o wynt ar y tir, ac mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu disgwyliadau clir ar sut y dylai hyn gael ei gyflawni, yn cynnwys:

- Ffocws cryf ar fanteision economaidd a chymunedol.
- Tryloywder ynglŷn â'r manteision a roddir gan bob datblygiad.
- Cysondeb dull ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid.
- Cydweithrediad rhwng datblygwyr i alluogi gwell canlyniadau strategol.
- Cywirdeb yn y modd y caiff Cronfeydd Budd Cymunedol eu dosrannu a'u rheoli.
- Ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill ar y cyfle cyntaf posibl.
- Cysylltiadau adeiladol gydag unrhyw becyn cyngor a chefnogaeth a ddarperir i fusnesau a chymunedau Cymru.

### **Ein Hymrwymiad**

Mae'r rhai a arwyddodd yn ymrwymo i:

- Ddull cyson o ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid i sicrhau y ceir y manteision economaidd a chymunedol gorau posibl.
- Tryloywder a chywirdeb mewn ariannu a gweithredu cynlluniau budd cymunedol. Cytuna'r llofnodwyr i gynorthwyo i greu a chyfranogi'n barhaus mewn cofrestr manteision economaidd a chymunedol ar gyfer Cymru gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, cymunedau a rhanddeiliaid eraill.
- Cael yr effaith gorau posibl gan ein buddsoddiadau drwy:
  - Weithio gydag ystod eang o rhanddeiliaid ar y cyfle ymarferol cynharaf, yn cynnwys, lle bo'n briodol, unrhyw gwmnïau sy'n gystadleuwyr er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau newydd yn rhoi ystyriaeth i fentrau sy'n bodoli a rhai sy'n dod i'r amlwg
  - Gweithio ar y cyd i nodi cyfleoedd - gyda chymunedau, llywodraeth a rhanddeiliaid priodol eraill - i gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol yn ogystal â chymunedol, gan ddenu ariannu o ffynonellau eraill lle bo'n bosibl.
- Galluogi cymunedau i gyrchu'r cyngor a'r gwasanaethau gorau posibl mewn trafod, trefnu, cynllunio a gweinyddu cynlluniau budd cymunedol. Mae'r diwydiant gwynt felly wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol gydag unrhyw fecanweithiau cefnogi y gall y gymuned ddymuno eu defnyddio.

<sup>1</sup> Ynni Cymru: Newid Carbon Isel, Llywodraeth Cymru, 2013, tud 17

## Signatories



Ross Easton  
Rheolwr Buddsoddi Cymunedol  
SSE




Matt Partridge  
Cyfarwyddwr Datblygu  
REG Wind Power



Julia Lynch Williams  
Rheolwr Gyfarwyddwr  
RWE Npower Renewables Ltd



Piers Guy  
Cyfarwyddwr Datblygu ar y Tir DU  
Vattenfall Wind Power Ltd



Huw Smallwood  
Cyfarwyddwr  
Tegni Cymru Cyf



Siôn Thomas  
Cyfarwyddwr  
Amegni



Maria McCaffery MBE  
Prif Weithredwr  
RenewableUK



Rachel Ruffle  
Cyfarwyddwr Datblygu  
RES





Robert P Tate

Rheolwr Gyfarwydwr

West Coast Energy Ltd

west coast   
energy